OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2003 Rhif 973 (Cy.132)

LANDLORD A THENANT, CYMRU

Gorchymyn Gweinyddu Gwasanaeth y Swyddogion Rhenti (Cymru) 2003

Wedi'i wneud	- -	*1 Ebrill 2003*
Yn dod i rym	- -	*1 Mehefin 2003*

O ran ardaloedd cofrestru yng Nghymru, gan fod Cynulliad Cenedlaethol Cymru o'r farn nad yw bellach yn briodol bod penodi, talu a gweinyddu swyddogion rhenti yn un o swyddogaethau awdurdodau lleol(**1**);

yn awr mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adran 64B o Ddeddf Rhenti 1977(**2**) drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol—

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Gweinyddu Gwasanaeth y Swyddogion Rhenti (Cymru) 2003 a daw i rym ar 1 Mehefin 2003 .

(2) Mae'r Gorchymyn yn gymwys i Gymru yn unig.

(3) Yn y Gorchymyn hwn —

ystyr "corff perthnasol" ("*relevant body*") yw'r corff a oedd yn cyflogi'r cyflogai perthnasol yn union cyn y dyddiad trosglwyddo;

ystyr "cyflogai perthnasol" ("*relevant employee*") yw person y mae ei gontract cyflogaeth i'w drosglwyddo gan Erthygl 3 o'r Gorchymyn hwn;

ystyr "y Cynulliad Cenedlaethol" ("*the National Assembly*") yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Rhenti 1977(**3**);

ystyr "y dyddiad trosglwyddo" ("*the transfer date*") yw 1 Mehefin 2003; ac

(**1**) *Gweler* adran 64B(1) o Ddeddf Rhenti 1977 (p. 42); mewnosodwyd adran 64B gan adran 120 o Ddeddf Tai 1988 (p. 50) a Rhan II o Atodlen 14 iddi.

(**2**) Gall Cynulliad Cenedlaethol Cymru arfer y pŵer o dan yr adran hon mewn perthynas â Chymru: *gweler* erthygl 2 o ac Atodlen 1 i Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).

(**3**) 1977 p. 42.

ystyr "Rheoliadau 1981" ("*the 1981 Regulations*") yw Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) 1981(**4**).

Diddymu cynlluniau o dan adran 63 o Ddeddf Rhenti 1977 yng Nghymru

2.—(1) Bydd unrhyw gynllun wedi'i wneud o dan adran 63 o'r Ddeddf, mewn perthynas â Chymru, a oedd yn bod yn union cyn y dyddiad trosglwyddo, yn peidio â bod yn effeithiol o'r dyddiad trosglwyddo ymlaen.

(2) Rhaid peidio â gwneud cynllun o dan adran 63 o'r Ddeddf ar gyfer unrhyw ardal gofrestru yng Nghymru.

Trosglwyddo Staff

3. Bydd contract cyflogaeth rhwng y corff perthnasol ac

(a) pob swyddog rhenti; a

(b) pob aelod o staff gweinyddol yn y corff perthnasol a gyflogir yn narpariaeth gwasanaeth y swyddogion rhenti,

a gyflogid yn barhaus gan y corff perthnasol yn union cyn y dyddiad trosglwyddo, ac eithrio unrhyw staff a wrthwynebodd drosglwyddo eu contractau cyflogaeth yn unol â Rheoliad 5(4A) o Reoliadau 1981, yn effeithiol o'r dyddiad trosglwyddo fel petai wedi'i wneud yn wreiddiol rhwng y cyflogai perthnasol a'r Cynulliad Cenedlaethol.

4. Heb ragfarn i erthygl 3:

(a) yn ddarostyngedig i baragraffau (ch) i (e) isod, trosglwyddir i'r Cynulliad Cenedlaethol bob hawl, pŵer, dyletswydd a rhwymedigaeth y corff perthnasol o dan gontract cyflogaeth y mae Erthygl 3 o'r Gorchymyn hwn yn gymwys iddo, neu mewn cysylltiad ag ef, yn rhinwedd y Gorchymyn hwn, o'r dyddiad trosglwyddo;

(b) yn ddarostyngedig i baragraffau (ch) i (e) isod, caniateir i unrhyw beth a wneid cyn y dyddiad trosglwyddo, gan, i neu mewn perthynas â chyflogai perthnasol ynglŷn â chontract cyflogaeth barhau i gael ei wneud, ar ôl y dyddiad hwnnw gan, i neu mewn perthynas â'r person hwnnw;

(c) yn ddarostyngedig i baragraffau (ch) i (e) isod, bernir bod unrhyw beth a wneid cyn y dyddiad trosglwyddo gan, i neu mewn perthynas â chorff perthnasol ynglŷn â chontract cyflogaeth neu gyflogai perthnasol, wedi'i wneud gan, i neu mewn perthynas â'r Cynulliad Cenedlaethol o'r dyddiad trosglwyddo;

(ch) yn ddarostyngedig i baragraff (d), pan wnaed penodiad cyflogai perthnasol yn ddarostyngedig i hawliau, rhwymedigaethau, pwerau a dyletswyddau, mae unrhyw un o'r hawliau, y rhwymedigaethau, y pwerau a'r dyletswyddau hynny a fodolai yn union cyn y dyddiad trosglwyddo yn parhau i fodoli;

(d) yn ddarostyngedig i baragraff (dd), trosglwyddir pob un o hawliau, rhwymedigaethau, pwerau a dyletswyddau y sywddog priodol neu'r corff perthnasol y bu penodiad cyflogai perthnasol yn ddarostyngedig iddo, yn rhinwedd y Gorchymyn hwn, i'r Cynulliad Cenedlaethol yn ddarostyngedig i unrhyw addasiadau angenrheidiol er mwyn galluogi eu

(**4**) O.S. 1981/1794 fel y'i diwygiwyd gan reoliad 2 o Reoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) (Diwygio) 1987 (O.S. 1987/442), adran 7(2) o Ddeddf Gwaith Dociau 1989 (p.13), adrannau 33 a 51 o Ddeddf Diwygio Undebau Llafur a Hawliau Cyflogaeth 1993 (p.19) ac Atodlen 10 iddi, rheoliadau 8, 9 ac 11 o Reoliadau Diswyddiadau Torfol a Throsglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) (Diwygio) 1995 (O.S. 1995/2587), adran 1 o Ddeddf Hawliau Cyflogaeth (Datrys Anghydfodau) 1998 (p.8), rheoliadau 2, 8, 9 a 10 o Reoliadau Diswyddiadau Torfol a Throsglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) (Diwygio) 1999 (O.S. 1999/1925), a rheoliadau 2 a 3 o Reoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) (Diwygio) 1999 (O.S. 1999/2402).

cymhwyso mewn perthynas â'r Cynulliad Cenedlaethol yn lle'r swyddog priodol, neu yn ôl fel y digwydd, y corff perthnasol;

(dd) nid yw paragraff (d) yn trosglwyddo nac yn effeithio fel arall —

(i) ar rwymedigaethau unrhyw berson sydd i'w erlyn am unrhyw dramgwydd, sydd i'w gollfarnu ohono a'i ddedfrydu o'i herwydd neu

(ii) ar rwymedigaethau unrhyw berson i dalu iawndal i gyflogai perthnasol neu mewn perthynas ag ef a'r rheini'n rhwymedigaethau sy'n codi o unrhyw beth a wnaed, neu fethiant â'i wneud, cyn y dyddiad trosglwyddo, ac

(e) nid oes dim yn y Gorchymyn hwn sy'n effeithio ar unrhyw hawl sydd gan gyflogai perthnasol i derfynu ei benodiad ond nid yw'r hawl honno yn codi oherwydd y trosglwyddo i'r Cynulliad Cenedlaethol y mae'r Gorchymyn hwn yn ei beri.

Trosglwyddo Eiddo, Hawliau a Rhwymedigaethau

5.—(1) Trosglwyddir yr holl eiddo, hawliau a rhwymedigaethau yr oedd y cyrff perthnasol â hawl iddynt neu yn ddarostyngedig iddynt yn union cyn y dyddiad trosglwyddo mewn cysylltiad â gwasanaeth y swyddogion rhenti i'r Cynulliad Cenedlaethol o'r dyddiad trosglwyddo.

(2) At ddibenion erthygl 5(1), nid yw'r term eiddo yn cynnwys tir neu adeiladau neu unrhyw fuddiant mewn tir neu adeiladau.

Penodiadau, taliadau, pensiynau, lwfansau ac arian rhodd swyddogion rhenti

6. Rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol —

(a) penodi a thalu swyddogion rhenti;

(b) penderfynu ar dâl swyddogion rhenti gan ystyried unrhyw sylwadau oddi wrth bersonau y mae'n eu derbyn yn gynrychiolwyr swyddogion rhenti; ac

(c) talu, neu pan fydd yn briodol, sicrhau bod y pensiynau, y lwfansau a'r arian rhodd yn cael eu talu i swyddogion rhenti neu mewn perthynas â hwy yn unol â'u statws fel gweision sifil a benodir gan y Cynulliad Cenedlaethol ac yn unol ag adran 1 o Ddeddf Blwydd-dal 1972(**5**) neu gynllun wedi'i wneud o dan yr adran honno.

Gweinyddu swyddogion rhenti

7.—(1) Rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol—

(a) darparu ystafelloedd ac offer swyddfa a chymorth clerigol a chymorth arall ar gyfer swyddogion rhenti;

(b) dyrannu gwaith rhwng swyddogion rhenti; ac

(c) goruchwylio ymddygiad swyddogion rhenti.

(2) Rhaid i swyddogion rhenti gyflawni'r dyletswyddau swyddogion rhenti y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn eu cyfarwyddo i'w cyflawni.

Cymhwyso rheoliadau 1981

8.—(1) Rhaid trin y cyflogeion perthnasol yn yr un modd â chyflogeion at ddibenion Rheoliadau 1981 o dan amgylchiadau pan fydd Rheoliadau 1981 yn gymwys.

(**5**) 1972 p.11.